# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fawrth, Tachwedd 14eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Arwel Davies, Catrin Roberts. Rhys Richards, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Jean Roberts.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Hydref 10fed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

## iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

i) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

## iv) Gohebiaeth

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Costau torri llwybrau – **oherwydd toriadau yn y swm a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer torri llwybrau troed yr ardal a'r cynydd yn y costau o wneud y gwaith roedd arian tu cefn y Bartneriaeth yn lleihau bob blwyddyn. Derbyniwyd cais yn gofyn am arian tuag y golled a wnaed eleni ac yna ar gyfer 2024-25. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £30 eleni a holi pa lwybrau oedd yn ofynol i'r Bartneriaeth ei dorri fel rhan o'r cytundeb a Chyngor Gwynedd. Nodwyd mai ychydig o ddefnydd o wnaed o'r llwybr troed oedd dan sylw ger cyrion pentref Parc ac ni fyddai'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost o'i dorri.**

b) Amrywiol.

i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft. **Cydnabuwyd.**
ii) Dwr Cymru yn Llyn Celyn – gwahoddiad i sesiwn friffio 30/11/23.**Cytunodd Geraint Jones, Euros Puw a Rhys Richards fynychu'r cyfarfod.**
iii) Mabon ap Gwynfor – gwahoddiad i gyfarfod, 14/12/23, i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3. **Nid oedd y cynghorwyr yn teimlo bod y newidiadau yma yn effeithio'r trigolion lleol.**
iv) Llywodraeth Cymru – adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector cynghorau cymuned a thref.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Byd Mary Jones – rhaghysbysiad o'r bwriad i newid yr arwyddion wrth fynedfa'r safle. **Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad.**

## vi) Materion Ariannol

a) Llywodraeth Cymru.

i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25. **Nodwyd.**

b) Adolygu cyflog a chostau'r clerc **– Cywir.**

c) Cyllideb a Praesept 2024/25.

**i) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer yswiriant, ffioedd archwilio a tal aelodaeth Un Llais Cymru. Cytunwyd i leihau cyllideb offer swyddfa gan nad oedd angen gwariant ar unrhyw offer sylweddol.**
**ii) Cytunwyd fod digon o arian i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn. Cytunwyd i gadw'r Praesept ar £4,500 ar gyfer 2024-25.**

ch) Taliadau - **Cymeradwywyd.**

i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)

ch) Cyfraniadau Ariannol
i) Theatr Bara Caws - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r asiantaethau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH CHWEFROR 13eg YN NEUADD PARC.**